



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Canllawiau statudol drafft – Perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau

Mawrth 2021

Cynnwys

1. Cyflwyniad - Cefndir i'r ymgynghoriad.....	3
2. Y broses ymgynghori	3
3. Crynodeb o'r ymatebion	5
Cwestiwn 1	5
Cwestiwn 2	7
Cwestiwn 3	9
Cwestiwn 4	11
Cwestiwn 5	13
Cwestiwn 6	14
Cwestiwn 7	15
Cwestiwn 8	16
4. Y camau nesaf	18
Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad.....	20

1. Cyflwyniad - Cefndir i'r ymgynghoriad

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Bil") yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethiant a pherfformiad. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021.

Mae a wnelo Rhan 6 o'r Ddeddf â pherfformiad a llywodraethiant prif gynghorau ac mae Pennod 1 o'r rhan honno yn darparu ar gyfer cyfundrefn newydd i wella perfformiad a llywodraethiant, a fydd yn disodli dyletswydd bresennol cynghorau i wella a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru roi cymorth a, lle y bo angen, ymyrryd mewn prif gynghorau sy'n wynebu problemau sylweddol.

Bwriedir i'r dull newydd o weithredu a nodir yn y Ddeddf ddarparu ar gyfer dull symlach a mwy hyblyg a arweinir gan y sector o sicrhau perfformiad, llywodraethu da a gwelliant. Y bwriad yw y bydd cynghorau yn mynd ati'n rhagweithiol i ystyried sut y dylai prosesau a gweithdrefnau mewnol newid er mwyn i brosesau cynllunio, cyflawni a phenderfynu mwy effeithiol allu cyflawni canlyniadau gwell.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r gofynion perfformiad ac arfer ei swyddogaethau o dan Ran 6, Pennod 1 o'r Ddeddf. Ni fydd y ddyletswydd i ystyried y canllawiau yn dod i rym nes y bydd y swyddogaethau perthnasol y mae'r canllawiau'n berthnasol iddynt yn dechrau ar 1 Ebrill 2021.

2. Y broses ymgynghori

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ffurfiol ar ganllawiau statudol drafft ar gyfer prif gynghorau ynglŷn ag arfer eu swyddogaethau o dan Ran 6 o Bennod 1 o'r Ddeddf rhwng 11 Tachwedd 2020 a 3 Chwefror 2021.

Darparwyd fersiynau electronig o'r ddogfen ymgynghori ffurfiol, y canllawiau statudol drafft a'r ffurflen ymateb yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan Llywodraeth Cymru. E-bostiwyd dolen i'r ymgynghoriad i'r holl brif gynghorau, yn ogystal ag amrywiaeth o randdeiliaid eraill. Yn dilyn cais am fersiwn Hawdd ei Deall o'r ymgynghoriad, cafodd hyn ei baratoi hefyd a'i roi ar-lein.

Yr ymatebion a gafwyd

Cafwyd cyfanswm o 31 o ymatebion erbyn y dyddiad cau. Daeth tri ymateb arall i law ar ôl y dyddiad cau ond maent wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn, a'u hystyried at ddiben llunio'r canllawiau terfynol.

Cafwyd ymatebion gan y canlynol:-

17 o brif gynghorau

1 o asiantaethau'r llywodraeth / corff arall yn y sector cyhoeddus

2 gyngor cymuned a thref

3 chorff archwilio/arolygu/rheoleiddio

3 chorff cynrychioliadol, corff proffesiynol neu gymdeithas

1 sefydliad o'r trydydd sector

1 undeb llafur
4 aelod o'r cyhoedd
1 arall
1 dienw

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr, heblaw am y rhai a oedd am aros yn ddienw, yn Atodiad A

3. Crynodeb o'r ymatebion

Diben y ddogfen hon yw rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd. Nid yw'n ceisio cyfleu pob pwynt a wnaed gan ymatebwyr yn fanwl.

Gofynnwyd wyth cwestiwn yn y ddogfen ymgynghori a chrynhwir yr ymatebion i bob un isod.

Ni chafodd pob cwestiwn ei ateb gan bob ymatebydd a rhoddodd rai ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad yn hytrach nag ateb cwestiynau penodol. Os felly, rydym wedi cynnwys eu hymateb o dan y cwestiwn mwyaf priodol.

Cwestiwn 1 - A yw'r canllawiau drafft yn nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan brif gynghorau fel y'i nodir yn narpariaethau Rhan 1 o'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) mewn ffordd y gall prif gynghorau ei deall?

Os nad ydynt, pam?

Cafwyd cyfanswm o 30 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda 26 yn cytuno'n gyffredinol fod y canllawiau drafft yn nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan brif gynghorau, gan gynnwys yr holl brif gynghorau a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Yn ei ymateb dywedodd CLILC fod y dull o gyd-gynhyrchu i'w groesawu a'i fod yn golygu bod y nodyn canllaw wedi cael cefnogaeth llywodraeth leol yn gyffredinol ond gwnaeth hefyd ychwanegubod yna rai pethau nad oeddent yn cael eu cefnogi gan lywodraeth leol yn gyffredinol, fel y gofyniad statudol i gynnal asesiad gan banel, a rhai o'r agweddau ar ragnodi mewn rhai meysydd.

Ymhlith y prif themâu mewn ymateb i'r cwestiwn hwn roedd:-

- Croesawyd y dull o gyd-ddatblygu'r canllawiau yn benodol mewn nifer o ymatebion.
- Gwerthfawrogwyd y pwyslais ar hunanwella.
- Cefnogwyd yr hyblygrwydd yn y canllawiau o ran disgresiwn lleol gydag un prif gyngor yn dweud eu bod yn nodi'n glir gyd-destun gofynion prif gynghorau ond gan adael hyblygrwydd i fabwysiadu'r broses fwyaf priodol sy'n addas ar gyfer pob awdurdod lleol a'i amgylchiadau penodol.
- Teimlwyd bod trosolwg clir o'r rolau a'r cyfrifoldebau disgwyledig.
- Nodwyd bod y cysylltiadau â deddfwriaeth arall yn ddefnyddiol.
- Cydnabuwyd bod cynghorau yn gweithio fel hyn yn barod ac y bydd y canllawiau yn helpu i barhau i ddatblygu hyn.
- Teimlwyd bod y canllawiau wedi'u strwythuro'n dda ar sail y prif ddyletswyddau yn y Ddeddf.
- Croesawodd rhai o'r ymatebwyr yn benodol symud i ffwrdd o ddull yn seiliedig ar dargedau, a dirymu Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau yn glir yn gyffredinol, ond gwnaed rhai pwyntiau penodol:-

- Tanlinellwyd pwysau ariannol hirdymor fel rhwystr posibl o ran 'mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau' a nodir ym mharagraff 1.10 o'r canllawiau drafft, ac awgrymodd un prif gyngor y gallai'r canllawiau newydd ddarparu mwy o hyblygrwydd ac anogaeth wrth feddwl am ei berfformiad, sut mae'n herio ei hun a sut mae'n mynd ati i arloesi heb ddilyn camau rhagnodol, a all gyfyngu arno ar hyn o bryd.
- Yr angen i roi'r pwyslais ar ganlyniadau a hyrwyddo gwelliannau.
- Gallai'r canllawiau fod yn fyrrach ac yn llai cwmpasog.

- Gallai fod o fudd mynd ati i egluro ymhellach y cysylltiadau rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a chwestiynodd un ymatebydd gyfeiriadau at y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol dros ddeddfwriaeth arall.

O blith y pedwar ymatebydd nad oeddent yn cytuno bod y canllawiau drafft yn nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan brif gynghorau fel y'i nodir yn narpariaethau Rhan 6, codwyd y pwyntiau allweddol canlynol:-

- Gofynnwyd am i'r canllawiau gael eu hehangu mewn perthynas â'r hawl i dai digonol.
- Dylid ymhelaethu ar ystyr y termau 'yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol' yn y gofynion perfformiad, ac mae angen mwy o eglurder o ran ystyr 'swyddogaethau'.
- Mae angen egluro ymhellach beth yw arfer orau a sut y gellir ei rhannu, a sut mae Llywodraeth Cymru, archwilwyr a rheoleiddwyr yn cydweithio.

Cwestiwn 2 - A yw Pennod 2 o'r canllawiau yn nodi'r gofynion perfformiad a'r ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus yn ddigon clir?

Os nad yw, beth y byddech yn ei ychwanegu neu'n ei newid?

Cafwyd cyfanswm o 28 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda 25 yn cytuno'n gyffredinol fod Pennod 2 o'r canllawiau yn nodi'r gofynion perfformiad a'r ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus yn ddigon clir. Yn ei ymateb, nododd CLILC ei bod yn croesawu hyrwyddo hunanwelliant a chydabod mai cynghorau sydd yn y sefyllfa orau i asesu eu cryfderau eu hunain a'r meysydd y mae angen iddynt eu gwella.

Ymhlith y prif bwyntiau a wnaed roedd y canlynol:-

- Mae'r disgwyliadau'n glir ac mae'r bennod hon yn darparu trosolwg defnyddiol o'r gofynion.
- Croesawyd yr hyblygrwydd i gysoni'r ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus â threfniadau llywodraethu corfforaethol lleol gan nifer o'r ymatebwyr, ac awgrymwyd y gallai helpu gyda phroses adrodd integredig.
- Croesewir y pwyslais ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau neu allbynnau.
- Nododd un prif gyngor ei fod yn dileu'r dyblygu blaenorol rhwng gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Mesur Llywodraeth Leol 2009.
- Gwerthfawrogwyd y pwyslais ar hunanwella.
- Nododd nifer o'r prif gynghorau eu bod eisoes yn gweithio i fframwaith tebyg, a chroesawyd y cyfle i barhau i ddatblygu'r dull hwn, er enghraifft, nododd un ei fod wedi bod yn datblygu ei drefniadau monitro a'i brosesau adolygu dros y blynyddoedd diwethaf, a bod y canllawiau yn gyson â dull datblygol y cyngor.
- Mae'r ddyletswydd i ymgynghori yn glir a chroesewir y gallu i ymgorffori fel rhan o ddull ymgynghori ehangach yn hytrach na gofyn am ymgynghoriad annibynnol.
- Cafodd y cyfle i integreiddio dyletswyddau adrodd ei groesawu'n benodol gan rai, er i un prif gyngor ofyn a allai'r adroddiad fod yn wannach drwy geisio bodloni sawl gofyniad.
- Mae nodi ffynonellau tystiolaeth i lywio'r hunanasesiad a all fodoli mewn cyngor eisoes yn ddefnyddiol.

Hefyd, gwnaed rhai awgrymiadau mewn perthynas â'r bennod hon:-

- Dylai cynghorau cymuned a thref chwarae rôl yn hunanasesiad prif gynghorau.
- Gall fod dehongliadau gwahanol o ymadroddion fel *'arfer ei swyddogaethau yn effeithiol'*.
- Byddai cymorth i roi camau cychwynnol y dull newydd ar waith yn ddefnyddiol.
- Byddai mwy o bwyslais ar ymgynghori, cyfranogi ac ymgysylltu fel ffyrdd o lywio'r hunanasesiad yn cael ei groesawu, ac awgrymwyd y dylai prif gynghorau hefyd ddangos sut y gwnaeth adborth lywio gwaith datblygu polisi a strategaeth.
- Gellid rhoi mwy o bwyslais ar edrych ar y ffordd y mae'r cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf o'i adnoddau drwy gydweithio.
- Gallai dull caniatool ei gwneud hi'n anos cymharu perfformiad cynghorau.
- Mae'n bwysig bod y disgwyliad ym mharagraff 1.10 sy'n cyfeirio at fynd y tu hwnt i'r disgwyliadau yn cael ei ystyried yng nghyd-destun heriau sy'n ymwneud â chyni ac effaith COVID-19.
- Byddai cymorth i symleiddio'r dull o gyflawni amrywiaeth o ddyletswyddau cyfreithiol o fudd.

Hefyd, galwodd rai am eglurder ynghylch pwyntiau yn y bennod hon:-

- Eglurder ynghylch pryd y dylid llunio a chyhoeddi'r adroddiad hunanasesu, a'r her o gysoni ag adroddiadau eraill.
- Eglurder ynghylch gofynion ymgynghori ac a oes angen i'r hunanasesiad drafft gael ei gyhoeddi at ddiben ymgynghori.

O blith y rhai nad oeddent yn cytuno bod Pennod 2 o'r canllawiau yn nodi'r gofynion perfformiad a'r ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus yn ddigon clir, codwyd y materion canlynol:-

- Gellid nodi'r gydberthynas rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn gliriach.
- Dylai'r bennod bwysleisio bod angen i gynghorau fynd ati i roi mwy o bwys ar dystiolaeth ddibynadwy, fel arolygon ystadegol gynrychioliadol.
- Dylai'r canllawiau alluogi'r ddyletswydd i ymgynghori ar berfformiad fod yn seiliedig ar ddull ymgynghori ac ymgysylltu mwy hyblyg, yn ôl disgresiwn cynghorau.
- Yn bwysig i bob pwyllgor craffu fod yn rhan o'r broses, nid dim ond y pwyllgorau llywodraethu ac archwilio.

Cwestiwn 3 - A yw Pennod 2 o'r canllawiau yn esbonio sut y gallai cyngor fodloni'r gofyniad i gynnal hunanasesiad er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau?

Os nad yw, beth y byddech yn ei ychwanegu neu'n ei newid?

Cafwyd 28 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda 17 yn cytuno'n gyffredinol fod Pennod 2 o'r canllawiau yn esbonio sut y gallai cyngor fodloni'r gofyniad i gynnal hunanasesiad er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

Ymhlith y pwyntiau allweddol a wnaed yn cefnogi sut mae Pennod 2 yn esbonio sut y gallai cyngor fodloni'r gofyniad i gynnal hunanasesiad roedd:-

- Rhoddwyd enghreifftiau defnyddiol o'r ffynonellau a all gael eu defnyddio i lywio hunanasesiad.
- Mae hunanasesiad yn rhan o ddull cynghorau yn barod.
- Croesawyd hyblygrwydd i gynghorau bennu eu dulliau hunanasesu eu hunain.
- Croesawyd yr awgrym i hunanasesiad fod yn seiliedig ar saith maes newid corfforaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae egwyddorion allweddol hunanasesu yn ddefnyddiol, a gellid eu hatgyfnerthu drwy bwysleisio'r diwylliannau a'r ymddygiadau sy'n cefnogi hunanasesiad effeithiol.
- Mae'r ffordd y mae'r canllawiau yn ymdrin â'r gofyniad i lunio adroddiad hunanasesu yn ddefnyddiol.

Hefyd, gwnaed rhai awgrymiadau mewn perthynas â'r Bennod hon:-

- Gellid egluro ymhellach yr hyn a fyddai'n amserlen resymol i gyhoeddi'r hunanasesiad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.
- Dylid bod yn ofalus nad yw'r gofynion yn gorgyffwrdd â phwerau Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- Bydd angen parhau i ddarparu arweiniad, cymorth a chynghor ar y cam gweithredu, gan gynnwys cyngor ar arferion gorau.
- Gall defnyddio Fframwaith CIPFA ar gyfer hunanasesu fod yn beth da.
- Gallai'r Bennod ymhelaethu ar bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth, cydweithio ac integreiddio fel gofynion perfformiad allweddol.
- Byddai eglurder ynghylch y ffordd y dylai'r hunanasesiad gyd-fynd ag adroddiadau blynyddol eraill sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth a fframweithiau perfformiad eraill yn ddefnyddiol.
- Gallai fod yn ddefnyddiol rhoi mwy o sylw i werth hunanwerthusiadau mewnol ar lefel gwasanaeth er mwyn llywio hunanasesiad ar lefel gorfforaethol, yn ogystal â chefnogi hunanwelliant ar bob lefel.
- Cyfeiriad at geisio barn plant i lywio'r hunanasesiad .
- Gall canllawiau mwy pendant ar gynnwys hunanasesiad fod yn ddefnyddiol.

Ymhlith y pwyntiau eraill a wnaed roedd:-

- Gallai cynnwys rhanddeiliaid wneud y broses o gyflawni'r asesiad yn hirach.
- Gallai ymgynghori ar y ffordd y mae'r cyngor wedi bodloni'r gofynion perfformiad fod yn heriol, a bydd angen meddwl am hynny.
- Ystyrir ymgynghori ar y gofynion perfformiad yn ddigwyddiad, a dylid defnyddio'r iaith sy'n ymwneud â chynnwys fel sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Cwestiynodd un ymatebydd gadael i bob prif gyngor ddatblygu ei ddull hunanasesu ei hun, oherwydd ni fyddai modd cymharu cynghorau wedyn.
- Risg y bydd hunanasesiad yn dyblygu cynnwys, a barnau mewn adroddiadau a dogfennau eraill yn barod.
- Mae'r rhestr o ffynonellau i lywio hunanasesiad yn pwysleisio bod cynghorau eisoes yn cyflawni nifer o ddyletswyddau adrodd, ac mae hyn o bosibl yn ychwanegu haen arall.
- Nid yw'r canllawiau yn glir ynghylch pwy yw cynulleidfya'r hunanasesiad.
- Gallai'r bennod fod yn fwy rhagnodol er mwyn sicrhau cadernid ac ansawdd.
- Gallai'r canllawiau fod yn gliriach ynghylch y cysylltiad rhwng hunanasesiad ac adroddiadau archwilio, arolygu a rheoleiddio.
- Gallai fod yn ddefnyddiol rhoi gwybodaeth gliriach am yr amrywiaeth o dystiolaeth a allai fod ar gael gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Bydd pwysigrwydd nodi gwaith craffu ac archwilio mewnol yn rhan allweddol o drefniadau hunanasesu cyngor.

Cwestiwn 4 - A yw Pennod 3 o'r canllawiau yn nodi'r gofynion sylfaenol i brif gynghorau drefnu asesiad o berfformiad gan banel ac ymateb iddo yn glir, yn ogystal â rhoi digon o hyblygrwydd i bob cyngor benderfynu ar ei ddull gweithredu ei hun?

Os nad yw, beth y byddech yn ei ychwanegu neu'n ei newid?

Cafwyd cyfanswm o 29 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd y mwyafrif yn cytuno'n gyffredinol fod y canllawiau drafft yn nodi'r gofynion sylfaenol i brif gynghorau drefnu asesiad o berfformiad gan banel ac ymateb iddo yn glir. Nododd CLILC nad oedd o blaid cyflwyno asesiadau statudol gan banel, ond ychwanegodd

mai un o'i phryderon oedd y byddai gwneud y broses yn statudol yn effeithio ar ddynameg yr hyn sydd, i bob diben, yn broses cymheiriaid a allai arwain at ddull lled-reoleiddiol. Felly, roedd CLILC yn croesawu paragraffau 3.9 a 3.10 sy'n pwysleisio nad archwiliad yw'r asesiad o berfformiad gan banel, ac nad yw'n dwyn yr awdurdod i gyfrif, ond mai ei ddiben yn hytrach yw cefnogi cynghorau a darparu safbwynt allanol gan gymheiriaid ynghylch y ffordd y mae'r cyngor yn gweithredu ac unrhyw feysydd lle y gall fod angen iddo dalu sylw penodol.

Codwyd y themâu canlynol wrth gefnogi'r trywydd a ddilynwyd yn y canllawiau, a'r cysyniad o asesiad o berfformiad gan banel yn fwy cyffredinol:-

- Croesewir her gan gymheiriaid, a dylai helpu cynghorau i ddatblygu ymhellach a rhannu gwersi ledled Cymru. Er enghraifft, nododd un prif gyngor ei fod yn teimlo y gallai gael effaith gadarnhaol ar ddulliau perfformiad mewnol prif gyngor yn fwy cyffredinol, oherwydd natur dryloyw iawn yr asesiad, a'r awydd i sicrhau bod unrhyw faterion arwyddocaol o ran perfformiad yn cael eu nodi a'u datrys yn brydlon.
- Roedd nifer o'r ymatebwyr yn croesawu'r hyblygrwydd yn y canllawiau i gynghorau ddatblygu eu dull eu hunain. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod rhai agweddau ar y canllawiau, fel y rhai yn ymwneud ag aelodaeth panel, yn rhy ragnodol, ac i'r gwrthwyneb nododd un arall y gallai fod llai o wahaniaethau er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd.
- Mae'r canllawiau, yn ddefnyddiol, yn cydnabod cyfuniad ac amseriad adolygiadau eraill, fel y rhai gan archwilwyr allanol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.
- Mae'r canllawiau yn pwysleisio natur gefnogol y dull.

Hefyd, roedd nifer o awgrymiadau a chwestiynau am y ffordd y byddai asesiadau o berfformiad gan banel yn gweithio'n ymarferol:-

- Awgrymwyd y byddai cylch gorchwyl neu gwmpas drafft ar gyfer asesiadau o berfformiad gan banel yn fuddiol.
- Cyfeiriodd nifer o brif gynghorau at nifer yr asesiadau gan banel i'w cynnal mewn cylch etholiadol 5 mlynedd, a'r galw posibl ar uwch-swyddogion ac aelodau etholedig i fod yn aelodau panel, ac awgrymwyd y dylai fod peth cydlynu cenedlaethol o ran amseru a chyflenwi aelodau panel.
- Galw am hyfforddi ac achredu aelodau panel.
- O ran aelodaeth panel, nodwyd y gellid lliniaru'r costau drwy drefniadau cytbwys, ac y dylai paneli fod yn amrywiol ac yn amryddawn. Awgrymodd un ymatebydd y byddai crybwyll cynrychiolaeth rheng flaen yn benodol ar gyfer paneli yn fwy blaengar.

- Awgrymodd undebau llafur y dylai Unsain chwarae rôl ar y panel. Awgrymodd Un Llais Cymru a dau gyngor tref a chymuned y dylai cyngorau cymuned a thref gael eu cynrychioli ar y panel, ac y dylai paneli ymgynghori â nhw o leiaf.
- Roedd tri ymatebydd o'r farn bod y cyfnod o bythefnos ar gyfer asesiad gan banel yn y canllawiau drafft yn fyr.
- Gallai fod yn ddefnyddiol tynnu sylw at ymddygiadau effeithiol adolygiadau gan gymheiriaid mewn cyd-destunau eraill.
- Nododd Estyn y byddai'n ddefnyddiol petai'n ofynnol i gynghorau hysbysu arolygiaethau, archwilwyr a rheoleiddwyr o ddyddiadau asesiadau gan banel o leiaf 6 mis ymlaen llaw, fel bod modd ystyried hyn wrth drefnu arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol.
- Hefyd, awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol i'r panel geisio barn archwilwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr, yn ogystal ag ombwdsmyr a chomisiynwyr lle y bo'n berthnasol.
- Roedd un prif gyngor yn teimlo y byddai angen i Lywodraeth Cymru gadw llygad agos er mwyn sicrhau bod y canllawiau yn cael eu dilyn mewn ffordd systematig.
- Galwodd Cyngor Caerdydd, a chadeiryddion ei bwyllgorau craffu, am ddull mwy teg a chyson o gynnwys pwyllgorau craffu mewn asesiadau o berfformiad gan banel.
- Nododd Archwilydd Cyffredinol Cymru nad yw'r drafft yn rhoi arweiniad i baneli na chynghorau ynghylch sut i sicrhau ansawdd asesiadau gan banel.
- Mae CLILC a CLIL o'r farn y byddai cynnig dull cydgysylltiedig o gynnal asesiadau gan banel yn fodd i rannu methodolegau, adnoddau, cymheiriaid, a lleihau gofynion logistaidd y gwaith o gomisiynu a threfnu pob asesiad gan banel.
- Roedd nifer o gynghorau a CLILC yn teimlo bod y canllawiau yn rhy ragnodol o ran aelodaeth panel.
- Awgrymwyd y dylid pennu uchafswm cyfnod a ganiateir rhwng asesiadau, yn hytrach na dynodi na fyddai bwlch o 9 mlynedd yn cael ei annog.

Cwestiwn 5 - Mae Pennod 4 yn nodi pwerau Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal arolygiad arbennig a dyletswyddau prif gynghorau a Gweinidogion Cymru i ymateb i unrhyw argymhellion. Mae Pennod 5 yn disgrifio pwerau a dyletswyddau Gweinidogion Cymru a chynghorau mewn perthynas â chefnogi perfformiad a helpu i'w wella; a phwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd.

A yw Penodau 4 a 5 yn disgrifio ac yn esbonio'r pwerau yn ddigonol?

Os nad ydynt, beth y byddech yn ei ychwanegu neu'n ei newid?

Ymatebodd cyfanswm o 26 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd 21 yn cytuno bod penodau 4 a 5 yn egluro pwerau a dyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru, prif gynghorau a Gweinidogion Cymru yn ddigonol mewn perthynas ag arolygiadau arbennig; a Gweinidogion Cymru a phrif gynghorau mewn perthynas â chefnogi ac ymyrryd.

O'r rhai a oedd yn cytuno bod Penodau 4 a 5 yn disgrifio ac yn esbonio'r pwerau hyn yn ddigonol, roedd 14 yn brif gynghorau. Nododd llawer o'r ymatebwyr fod y pwerau a'r dyletswyddau oedd yn cael eu disgrifio yn adlewyrchu pwerau presennol, a bod penodau'r canllawiau yn adlewyrchu'r hyn y byddent wedi disgwyl ei weld.

Er eu bod yn cytuno bod y canllawiau yn ddigon clir, roedd rhai yn teimlo y gallai mwy o eglurder fod yn ddefnyddiol, fel:-

- Enghreifftiau penodol o ba bryd y byddai arolygiad arbennig neu ymyriad yn debygol.
- Faint o rybudd y gall cyngor ei ddisgwyl o arolygiad arbennig.

Roedd sylwadau eraill yn ymwneud ag effaith cynghorau yn cefnogi cynghorau eraill petai Gweinidogion Cymru yn gofyn am hynny.

O'r rhai nad oeddent yn cytuno'n benodol fod Penodau 4 a 5 yn disgrifio ac yn egluro'r pwerau a'r dyletswyddau hyn yn ddigonol, cwestiynodd un ymateb y pwerau eu hunain, ond nododd y byddai'r rhyngberthynas rhwng Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru yn bwysig wrth gefnogi gwaith adeiladol gyda'r cynghorau.

Gofynnodd ymatebwyr eraill am eglurder fel:-

- Yr amser oedd ar gael i ymateb i adroddiad ar arolygiad arbennig.
- A fyddai Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar argymhellion adroddiad ar arolygiad arbennig.
- Sut y byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Lywodraeth Cymru yn penderfynu bod angen cynnal arolygiad arbennig.

Galwyd am i bwyllgorau craffu gael eu cynnwys wrth ymateb i adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Cwestiwn 6 - Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r canllawiau yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Cafwyd cyfanswm o 21 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gydag 16 ohonynt gan brif gynghorau a CLILC.

Y prif bwyntiau a wnaed oedd:-

- Ni fydd y canllawiau yn cael effaith uniongyrchol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, oherwydd wrth ddilyn y canllawiau bydd cynghorau yn cyflawni eu dyletswyddau presennol o ran y Gymraeg.
- Croesawyd y cyfle yn y canllawiau i barhau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.
- Teimlwyd y dylai'r canllawiau gyfeirio at ddeddfwriaeth iaith berthnasol.
- Dylai'r canllawiau annog prif gynghorau i gynnwys pobl o bob cefndir ac iaith i gymryd rhan yn y broses.
- Awgrymwyd y gallai'r paneli fydd yn cynnal asesiadau o berfformiad gynnwys siaradwr neu ddysgwr Cymraeg.
- Dylai perfformiad cyngor o ran y Gymraeg fod yn un o nodweddion ei hunanasesiad ac asesiad o berfformiad panel.

Cwestiwn 7 - Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r canllawiau gael eu llunio neu eu newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. -

Cafwyd cyfanswm o 13 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda'r mwyafrif gan brif gynghorau.

Y prif bwyntiau a wnaed oedd:-

- Gallai'r canllawiau gyfeirio'n fwy at y Gymraeg a gofynion Mesur y Gymraeg, yn ogystal â'r Nod Llesiant 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.
- Dylai'r canllawiau fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg ym mhob fformat.
- Dylai fod yn ofynnol i bob dogfen a ddefnyddir yn y broses fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Byddai deunydd arfer orau ar ymgysylltu ac ymgynghori yn ddefnyddiol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried o'r cychwyn.
- Mae'r canllawiau yn gwneud y cysylltiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n cynnwys cyfeiriad at y Gymraeg.
- Gellid holi siaradwyr Cymraeg am eu barn am ddarpariaeth Gymraeg y cyngor, a sut mae'n cyflawni ei dargedau o ran hyrwyddo'r Gymraeg.
- Gallai'r canllawiau argymhell y dylai paneli sy'n cynnal asesiadau o berfformiad adlewyrchu proffil ieithyddol y cymunedau a wasanaethir gan y cyngor a asesir.

Cwestiwn 8 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol am y canllawiau drafft. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i fynegi eich barn.

Rhoddodd cwestiwn 8 gyfle i godi unrhyw faterion cysylltiedig nad oedd y cwestiynau eraill wedi ymdrin â nhw'n benodol.

Cafwyd 21 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (gan gynnwys tri o'r llythyrau eglurhaol) a oedd yn cwmpasu amrywiaeth o faterion yr oedd ymatebwyr am eu codi neu ailadrodd eu safbwynt mewn perthynas â nhw.

Ymhlith y pwyntiau ehangach a godwyd am y gyfundrefn perfformiad a llywodraethu newydd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn roedd:-

- Her canfod yr adnoddau sydd eu hangen i roi'r gyfundrefn ar waith yn llawn o ystyried cyni, a materion fel ymateb i COVID-19 a'r DU yn ymadael â'r Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau.
- Dylai'r canllawiau fod yn adnodd ymarferol i gynghorau, a sicrhau bod gofynion yn cael eu hegluro'n llawn fel bod modd eu gweithredu.
- Nododd un ymatebydd y dylai fformat a naws y canllawiau fod yn llai cwmpasog ac academaidd ac yn fwy gweithdrefnol ac ymarferol.
- Dylai'r hyblygrwydd mwyaf sydd gan gynghorau i ddehongli a bodloni'r gofynion fod yn glir yn y canllawiau.
- Pryder y byddai'n cymryd cryn dipyn o amser i drefnu'r gyfundrefn newydd o ran yr amrywiaeth o weithgareddau ac amser aelodau.
- Gellid efallai atgyfnerthu'r canllawiau i ganolbwyntio ar wella canlyniadau, yn hytrach na dim ond gofynion o ran perfformiad.
- Pryder ynghylch y ffordd y bydd yr ymgynghoriad i lywio'r hunanasesiad yn gweithio'n ymarferol.
- Barn y dylai fod proses gwyno.
- Angen i Lywodraeth Cymru gadw llygad agos ar weithredu'r canllawiau mewn prif gynghorau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno mewn ffordd systematig ledled Cymru.
- Ailadrodd yn y canllawiau o ran y ffordd y dylai prif gynghorau gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Nid yw'r cyfeiriadau at amgylcheddau na sefydliadau rheoleiddiol eraill yn y canllawiau yn ychwanegu gwerth.
- Ymddengys fod y canllawiau yn ategu bwriad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i atgyfnerthu a grymuso llywodraeth leol.
- Mae'r canllawiau yn ceisio rhoi mwy o gyfrifoldeb ar brif gynghorau i ganfod eu llwybr eu hunain i wella gwasanaethau, a groesewir.
- Roedd un ymatebydd yn gobeithio y byddai'r dull oedd yn datblygu yn cyfrannu at berthynas fwy aeddfed rhwng llywodraeth genedlaethol a lleol.
- Mae'r canllawiau yn dynodi y dylid craffu ar y broses, ond nid yw'n darparu lefel debyg o ddylanwad i bwyllgorau llywodraethu ac archwilio.
- Dylai cyfeiriadau at Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru gael eu diwygio er mwyn adlewyrchu ei rôl a'i gyfrifoldebau yn well o fewn y gyfundrefn perfformiad a llywodraethu.
- Nodwyd bod y diffiniad o welliant ym mharagraff 1.9 o'r canllawiau drafft yn cyflwyno ymdeimlad o eglurder a chysondeb ynghylch yr hyn y mae gwelliant yn ei olygu o ran sicrhau canlyniadau gwell i bobl.

- Gellid cyfeirio'n benodol at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r dystiolaeth sydd ar gael i gynghorau fel rhan o'i waith.
- Nododd un cyngor fod y gwaith o ddatblygu'r canllawiau statudol ar y cyd â CLILC, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru wedi bod yn ddefnyddiol. Byddai o blaid gweld CLILC yn parhau i gynorthwyo Awdurdodau Lleol i wella'n gyffredinol, ac yn benodol o ran trefniadau 'gweithredoli' i leihau'r siawns o ddyblygu gwaith, ac i barhau i annog rhannu sgiliau, profiad ac arfer drosglwyddadwy.

Gwnaed rhai pwyntiau penodol mewn perthynas ag aelodaeth paneli sy'n cynnal asesiadau o berfformiad:-

- Roedd pryder y byddai paneli yn cynnwys yr un hen bobl, ac y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gynnwys pobl leol.
- Dylai'r paneli fod yn amrywiol a chynrychioli cymunedau'r prif gyngor a asesir.
- Eglurder ynghylch ystyr 'yn ddiweddar' o ran y gofyniad ym mharagraff 3.24 lle nodir *'ni ddylid ystyried unrhyw un sy'n aelod o awdurdod sydd i'w asesu, neu sy'n un o'i swyddogion, ar gyfer ei benodi i'r panel'*.

Hefyd, nododd un ymatebydd y byddai'n ddiddorol deall sut y gallai hyn fod yn gymwys i Gydbwyllograu Corfforaethol.

4. Y camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad. Er na fydd yr adroddiad hwn yn ymateb i bob un o'r materion a godwyd, mae'r ymatebion wedi cael eu hystyried yn ofalus wrth edrych ar fersiwn derfynol y canllawiau statudol, a sut i gefnogi eu gweithredu wrth symud ymlaen.

Nodir bod cefnogaeth eang i'r canllawiau fel y maent, ac ystyriwyd bod y dull cyd-ddatblygu yn werthfawr ac yn adeiladol. Codwyd rhai pwyntiau lle gellid newid y canllawiau i ymateb i awgrymiadau i egluro neu atgyfnerthu agweddau penodol, a gwneir hyn yn y canllawiau terfynol. Er enghraifft: egluro cyfeiriadau er mwyn adlewyrchu'r rôl archwilio yn fwy cywir; sicrhau bod cyfeiriadau at ganlyniadau yn glir; ac egluro pwyntiau mewn perthynas ag amseriad llunio a chyhoeddi adroddiadau.

Roedd nifer o feysydd lle byddai'r hyblygrwydd yn y canllawiau drafft eisoes yn galluogi cyngor i wneud rhywbeth a awgrymwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Er enghraifft, cynnwys sectorau ychwanegol fel aelodau'r panel, a phwysigrwyd ystyried gweithio mewn partneriaeth yn yr hunanasesiad.

Gwnaethom benderfynu osgoi gorgymhlethu'r canllawiau drwy gyfeirio at bopeth a *all* gael ei wneud, oherwydd gallai roi'r argraff na chaniateir unrhyw beth nas rhestrir o fewn ffiniau'r dyletswyddau. Cafodd y dull mwy caniatol a llai rhagnodol hwn ei groesawu gan nifer o'r ymatebwyr, ac mae'n adlewyrchu dull y cytunwyd arno â phartneriaid llywodraeth leol pan ddechreuwyd cyd-ddatblygu'r canllawiau. Awgrymwn y gellir archwilio'r meysydd hyn ymhellach ar y cam gweithredu unwaith y bydd y dyletswyddau wedi dechrau.

Hefyd, gwnaed rhai pwyntiau na allwn ymateb iddynt yn y canllawiau. Bwriedir i'r canllawiau hwyluso'r gwaith o gyflawni darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac ni allant gynnwys unrhyw ddyletswyddau nas cyflwynwyd yn y ddeddfwriaeth sylfaenol.

Er enghraifft, galwodd dau ymatebydd am i swyddogaeth graffu prif gynghorau gael yr un statws â phwyllgorau llywodraethu ac archwilio yn y canllawiau statudol. Fel y nododd y canllawiau drafft, bydd trefniadau craffu yn rhan allweddol o hunanasesiad, a mater i gyngor fydd penderfynu a chytuno ar y ffordd orau o gynnwys ei bwyllograu craffu. Fodd bynnag, mae rôl statudol pwyllgorau llywodraethu ac archwilio yn y broses wedi'i hamlinellu yn y Ddeddf, ac felly fe'i disgrifir yn y canllawiau. Ni all y canllawiau ragnodi'r un rôl ar gyfer pwyllgorau craffu am nad yw hyn wedi'i gynnwys yn y Ddeddf.

Galwodd rhai ymatebwyr am gynrychiolaeth benodol ar y panel sy'n cynnal asesiadau o berfformiad. Mae'r canllawiau yn nodi'r hyn sy'n ofynnol o ran aelodaeth panel, gan gynnwys uwch-swyddogion llywodraeth leol, aelod etholedig, a chymheiriad o'r sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r sector gwirfoddol. Gall cyngor *ddewis* penodi aelodau ychwanegol o'r panel fel y dymuna, a gall panel gynnwys neu ymgynghori ag eraill wrth gynnal ei asesiad, ond ni all y canllawiau ragnodi hyn. Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â phenodi aelodau panel, ond bwriedir cwmparu hyn drwy ganllawiau i ddechrau.

Roedd nifer o'r pwyntiau a godwyd yn gysylltiedig â pharhau i gefnogi hunanasesiad, a'r manylion ynghylch cynnal hunanasesiad, gan gynnwys: rhannu arferion gorau a dulliau effeithiol; nodi diwylliant ac ymddygiadau effeithiol ar gyfer hunanasesiad; dulliau

ymgynggori ac ymgysylltu effeithiol; defnydd effeithiol o dystiolaeth; a sicrhau ansawdd hunanasesiadau. Hefyd, galwodd nifer o ymatebion am gefnogi a chydgysylltu asesiadau o berfformiad gan banel.

Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi cytuno i ddarparu cyllid ar gyfer rhaglen gwella a chymorth a arweinir gan y sector, dan ofal CLILC, i gefnogi'r diwygiadau deddfwriaethol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r Rhaglen Gwella a Chymorth yn amlinellu uchelgais CLILC a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod capasiti a arweinir gan y sector ar waith i helpu llywodraeth leol i wella gwasanaethau, a chefnogi'r cynghorau hynny y gall fod angen cymorth mwy pwrpasol arnynt. Drwy'r rhaglen hon, y nod yw darparu cymorth cydgysylltiedig ar gyfer hunanasesiad, yn ogystal â chydgysylltu rhwydwaith cymheiriaid i gefnogi asesiadau o berfformiad gan banel. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda CLILC a llywodraeth leol i ddatblygu hyn.

Cododd rhai ymatebwyr bryderon am roi cyfundrefn newydd ar waith pan fo llywodraeth leol yn parhau i wynebu heriau mewn perthynas â chyni ac effaith COVID-19. Cydnabyddwn yr heriau hyn, a bod cryn newid wedi bod o fewn llywodraeth leol mewn ymateb. Mae'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethu newydd yn cyflwyno dull hyblyg ac ymatebol o gefnogi prif gyngor, drwy broses adolygu barhaus, i fyfyrio ar heriau ac ymateb iddynt wrth iddynt godi. Gall y gyfundrefn newydd gael ei chynnwys mewn dulliau llywodraethu presennol ym mhob prif gyngor fel bod modd mynd ati mewn ffordd onest ac agored i fyfyrio ar berfformiad, cefnogi arloesedd wrth wella gwasanaethau, ac ymateb i heriau sy'n dod i'r amlwg.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i barhau i weithio gyda CLILC, prif gynghorau a phartneriaid yn dilyn y broses ymgynghori hon a chyhoeddi'r canllawiau statudol terfynol er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn perfformiad a llywodraethu newydd yn cael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus.

Caiff y canllawiau statudol terfynol eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2021, ond bydd y pwerau a'r dyletswyddau ym Mhennod 1 o Ran 6 o'r Ddeddf, y mae'r canllawiau'n berthnasol iddynt, yn gymwys i brif gynghorau o 1 Ebrill 2021 ymlaen yn unig (ac eithrio'r dyletswyddau y daw asesiadau o berfformiad gan banel i rym mewn perthynas â nhw, yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf ym mis Mai 2022). Bydd yn ofynnol i brif gynghorau ystyried y canllawiau unwaith y daw'r swyddogaethau perthnasol i rym

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Prif gynghorau

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Caerdydd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Powys
Cyngor Abertawe
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Asiantaethau'r llywodraeth / cyrff sector cyhoeddus eraill

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cynghorau Cymuned a Thref

Cyngor Tref Y Barri
Cyngor Cymuned Henllys

Archwilio/Arolygiad/Rheoleiddiwr

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Arolygiaeth Gofal Cymru
Estyn

Cyrff cynrychioliadol, Cyrff proffesiynol neu Gymdeithasau

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Un Llais Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol

Trydydd Sector

Yr Ymgyrch 'Back the Bill' - Tai Pawb, CIH Cymru, Shelter Cymru

Undebau Llafur

UNISON Cymru Wales

Aelodau o'r Cyhoedd

Pedwar cyflwyniad

Arall

Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu Cyngor Caerdydd

Anhysbus

Un cyflwyniad